Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-4478-20

Lynne Neagle, AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@senedd.cymru

Copi at:
John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

SeneddCommunities@senedd.cymru

6 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr 20 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Roedd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein hymagwedd at dâl y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol trwy Fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau tâl ar draws y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf o gofio penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi codiad cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Bydd goblygiadau dyfarniadau tâl yn 2021-22 yn gorfod cael eu hymgorffori o fewn gwaith cynllunio cyllideb yr awdurdodau lleol yng ngoleuni'r Setliad. Mae ein penderfyniadau yn y gyllideb yn targedu cymaint o gymorth ag y gallwn at iechyd a llywodraeth leol i gefnogi pwysau mewn gwasanaethau rheng flaen gan ganolbwyntio ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer tâl y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar ddosbarthu cyllid ar draws yr awdurdodau lleol ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb tâl athrawon a'r ymrwymiad a wnaed gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn trwy gyfeirio cyllid at y rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

At ei gilydd (ac eithrio trosglwyddo cyllid ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol), bydd llinell sylfaen y setliad yn cynyddu £176 miliwn mewn termau arian parod yn 2021-22. Mae

hyn yn adlewyrchu cynnydd mwy yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) i ddigolledu ar gyfer gostyngiad mewn casglu Ardrethi Annomestig, a achosir yn bennaf gan effaith y pandemig.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddir y gwariant y mae'r awdurdodau lleol yn ei gyllidebu i bennu maint cymharol sectorau'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA). Ar gyfer 2021-22, i gydnabod cytundeb tâl athrawon ar gyfer 2020/21, rydym yn cyfeirio £19.973 at sector SSA gwasanaethau ysgolion, i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11, cyn rhannu gweddill y cynnydd ar draws y sectorau SSA.

Cyfrifwyd y ffigur o £19.973 miliwn fel a ganlyn (ac mae'n cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ar bensiynau athrawon):

- Roedd £13.148m = y pum mis o'r elfen 2.6% [1]o gytundeb tâl 2020/21 nad oedd eisoes yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (7 mis, gan gynnwys Medi 2020 i Fawrth 2021, eisoes yn y llinell sylfaen, ar werth o £18.4m yn setliad 2020-21).

  *plws*

- £6.825m = 12 mis llawn o elfen 0.5%[2] o gytundeb tâl 2020/21, nad oedd unrhyw ran ohono yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (mae 7 mis ohono'n cael ei dalu fel grant penodol, gan gwmpasu Medi 2020 i Fawrth 2021, ar gost o £3.981m)

Diben cyfeirio'r cyllid at rannau penodol o'r fformiwla yw sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu yn y ffordd fwyaf priodol, i gydnabod y pwysau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Nid yw'n ffordd o bennu faint o gyllid sydd yn y setliad ar gyfer diben penodol. Felly, ni fyddai'n gywir siarad yn nhermau cyfrannau o gyllid sydd wedi'u cynnwys at ddiben penodol.


O ran pensiynau athrawon, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol yn y setliad hwn yn benodol at y diben hwnnw. Mae'r cyllid a oedd yn cael ei ddarparu trwy setliad 2020-21 yn aros yn y llinell sylfaen ac yn cael ei ddosbarthu yn ôl y fformiwla ehangach sy'n seiliedig ar anghenion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth asesu'r pwysau ar yr awdurdodau lleol.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

---

[1]2.6% oedd amcangyfrif gorau y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant adeg y cyfrifiad
[2] 0.5% i gydnabod y gwahaniaeth rhwng amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2.6%)a'r cynnydd cyffredinol o 3.1% i'r bil cyflogau